

This year, Ffarm Moelyci will be holding it's traditional Winter Fair once again, on Sunday 13th December. The event will focus on celebrating local crafts and food producers and will be centred around the refurbished shop and cafe next to the market garden and also in the 'Red barn yard' by the newly completed community kitchen.

There are still some stalls available if you wish to attend - please contact Ian (below). As ever we will be very grateful for any help both on the day and also during the set-up and take down sessions either side of the event itself.

There are a variety of tasks that need doing, from directing car parking, to helping with refreshments and children's activities. We hope that enough people will offer to help so that we can break each job down into short sessions giving helpers a bit of variety and a chance to look around the event. If you are able to help in any way, we would be very grateful, and would be delighted to hear from you. There will be things to do at Moelyci on Friday, Saturday, Sunday and Monday 11-14th December, and we also need help publicising the event (there are flyers in the shop/cafe and the office if you can drop by) so please do get in touch and we'll send you information on the tasks available.

With grateful thanks in advance

Ian Campbell, [ianofcamberwell@hotmail.com](mailto:ianofcamberwell@hotmail.com)  
Colin Kehse, [colink@cwmharry.org.uk](mailto:colink@cwmharry.org.uk) and Graham  
Events Group



Winter Fair



## Bwletin Rhagfyr 2015 Ffarm Moelyci December Bulletin 2015

Unwaith eto eleni, bydd Fferm Moelyci yn cynnal Ffair Aeaf draddodiadol ar ddydd Sul, Rhagfyr 13eg. Mae'r digwyddiad yn canolbwyntio ar hyrwyddo cynnyrch bwyd a chrefftau lleol gyda'r Ffair yn cael ei lleoli o gwmpas y siop a'r caffi, yr ardd farchnad yn ogystal â iard y Buarth Coch sydd gerbron y gegyn gymunedol newydd.

Mae rhywfaint o stondinau yn dal ar gael. Pe baech efo diddordeb yna gellid cysylltu gyda Ian drwy ebost (gweler y cyfeiriad isod). Byddwn hefyd yn ddiolchgar am unrhyw help yn ystod y cyfnod paratoi, y diwrnod ei hun, neu ar ôl y Ffair I glirio ac yn y blaen.



Mae amryw o dasgau sydd angen eu gwneud, o drefnu parcio yn y maes parcio I helpu gyda'r lluniaeth a'r gweithgareddau ar gyfer y plant. Gobeithir y bydd digon o bobl yn fodlon helpu er mwyn sicrhau fod pob swydd yn cael eu rhannu I sesiynau byr, er mwyn rhoi cyfle i'r gwirfoddolwyr gael amser I fwynhau'r Ffair. Pe baech yn gallu helpu mewn unrhyw ffordd, byddwn yn hynod ddiolchgar, ac yn osy o glywed gennych. Bydd tasgau i'w gwneud ym Moelyci ar y dydd Gwener, Sadwrn a Sul, sef Rhagfyr 11eg, 12fed a'r 13eg yn ogystal â dydd Llun Rhagfyr 14eg. Bydd angen help hefyd I roi cyhoeddusrwydd i'r Ffair. Mae pamffledi gwybodaeth ar gael yn y siop/caffi a'r swyddfa a gwerthfawrogir yn fawr pe baech yn gallu galw i'w nhôl a'u dosbarthu. Felly, os ydych yn dymuno rhoi cymorth o unrhyw fath, yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda, fel ein bod yn gallu gyrru manylion am y tasgau fydd angen eu gwneud.

Gan ddiolch ymlaen llaw,

Ian Campbell, [ianofcamberwell@hotmail.com](mailto:ianofcamberwell@hotmail.com)  
Colin Kehse, [colink@cwmharry.org.uk](mailto:colink@cwmharry.org.uk) and Graham  
Events Group



Ffair Aeaf

**WiFi Shop and Café**

The shop is still open on Fridays and Saturdays. Volunteers are needed to grow our community and help us to open on Thursdays and Sundays. Volunteering with us is the perfect way to gain valuable skills, enhance your CV and make friends. The New Year will bring new perks for our volunteers including discounts on your weekly shop and free tea and coffee. If you are interested in this opportunity please get in touch with myself or Jo.

This Christmas, the shop will be open on **Friday 18th December until 6pm** and **Saturday 19th December until 5pm**. We will then re-open in the new year on the **Friday 8th January at 11.30am**. Unfortunately we are unable to supply veg boxes during this period as our growers and suppliers will also be having their well earned break. Veg box orders will resume in January. In the new year, we are also considering a Veg Box Market with a new range of boxes. If you're interested in smaller or family sized veg boxes then come into the shop and have a chat.

We now have order forms for Pumpkin Seed Bakery for their Luxurious Christmas mince pies, cakes, puddings and gluten free alternatives. We also have a large range of sundries, jams and chutneys and preserves to pick from. Order in the shop for collection. I can't begin to tell you how good the pickled onions are!

The Cafe is now a venue for a weekly Art Class run by XXX on XXX at XXX. We are also pleased to host the monthly 'Swgrs a Panad' event which is becoming very popular with local Welsh speaker and learners alike. The next session is on 5th December 10am – 11am. Come along and join us!

Don't forget the Christmas fair. Our own producers will be on-site as well as a lot of other producers of local foods. There will also be tasting sessions, arts and crafts and a range of other events.

*Dave Ellis, Food Hub*

**Remember our Volunteering Days**

- Market Gardening every Thursday 10.00am until 4.00pm
- Work with the land every Tuesday 10.00am until 4.00pm
- Shop and Café every Saturday 10.00am until 4.00pm



**Y Siop a'r Caffi**

Mae'r siop yn dal I fod ar osy n ddydd Gwener a dydd Sadwrn. Mae galw am wirfoddolwyr I ehangu ein cymuned a chaniatáu inni osy n ddydd lau a dydd Sul. Mae gwirfoddoli gyda ni yn ffordd berffaith I ddysgu sgiliau gwerthfawr, gwella eich CV a gwneud ffrindiau. Bydd y flwyddyn newydd yn dod â manteision newydd I'n gwirfoddolwyr, gan gynnwys gostyngiadau ar eich siopa wythnosol a the a choffi yn rhad ac am ddim. Os oes gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn, cysylltwch â mi neu Jo.

Dros y Nadolig, bydd y siop ar agor **ddydd Gwener 18 Rhagfyr tan 6pm** a **dydd Sadwrn 19 Rhagfyr tan 5pm**. Yna byddwn yn ail-agor yn y flwyddyn newydd **ddydd Gwener 8 Ionawr am 11.30am**. Yn anffodus, nid ydym yn gallu darparu blychau llysiâu yn ystod y cyfnod hwn gan y bydd ein tyfwyr a'n cyflenwyr hefyd yn cael seibiant haeddiannol. Bydd archebion blychau llysiâu yn aildechrau ym mis Ionawr. Yn y flwyddyn newydd, rydym hefyd yn ystyried creu Marchnad Blychau Llysiâu gydag ystod newydd o flychau. Os oes gennych ddiddordeb mewn blychau llysiâu llai neu rai ar gyfer teulu, yna dewch I'r siop am sgwrs.

Erbyn hyn mae gennym ffurflenni archebu gan Popty Hadau Pwmpen ar gyfer mins peis moethus, cacennau, pwdinau a danteithion dim glwten. Mae gennym hefyd ddewis eang o fanion, jam, siytni a chyffraith. Archebwch yn y siop. Fedra I ddim ddechrau dweud pa mor dda ydi'r nionod picl!

Bellach cynhelir dosbarth celf wythnosol gan XXX ar XXX am XXX yn y caffi. Rydym hefyd yn osy o gynnal digwyddiad 'Panad a Sgwrs' misol sy'n dod yn boblogaidd iawn ymysg siaradwr Cymraeg a dysgwyr lleol fel ei gilydd. Bydd y sesiwn nesaf ddydd Sadwrn 5 Rhagfyr rhwng 10:00-11:00. Dewch draw!

Peidiwch ag anghofio'r Ffair Nadolig. Bydd ein cynhyrchwyr ni ar y safle yn ogystal â llawer o gynhyrchwyr eraill. Bydd sesiynau blasu, celf a chreffft ac amrywiaeth o ddigwyddiadau eraill ar gael.

*Dave Ellis, Food Hub*

**Gofiwch ein diwrnodau gwirfoddoli**

- Gardd Fasnachol pon dydd lau 10:00 tan 16:00
- Gweithio'r Tir pob dydd Mawrth 10:00 tan 16:00
- Siop a Caffi pon dydd Sadwrn 10:00 tan 16:00

## News from the Graziers

The Autumn is the start of the sheep keeper's year. All of my ewes have been moved down from Moelyci mountain home to Pentir, the ewe lambs have gone to greener pastures in Newark on Trent for the winter and will return to Moelyci hopefully in April.

All sheep graziers at Moelyci carefully select the strongest 'team' to go into the winter in the 'breeding flock'. We select the healthiest and strongest sheep to keep and draft/cull off the weakest and the oldest stock. We keep the best ewe lambs as replacement and sell away the smallest ewe lambs and all the male lambs born last spring. Some lambs are sold as stores to other farmers in lower ground to fatten up, some are finished and sold direct to processors who will export to Italy or Portugal as whole carcasses. The ewes are usually sold in the livestock market to lowland farmers to breed another season on kinder low lying ground.

The rams will be turned to the ewes for mating between October and the end of November in our type of farm, so after a 5 month gestation period we aim to be lambing end of March to middle of April so that the lambs are born in time, but not too early for the early shoots of spring grass.

During the next 6 months it's vitally important that sheep aren't disturbed, try to avoid entering fields with sheep in, especially with a dog as the slightest stress can cause the sheep to abort the new born lamb.

*Glynne Jones, Grazier*

## Allotments

It's a quiet time on the allotments at the moment with the main task being to prepare the ground for the Spring and a general tidy up of the seasons growth. We're looking forward to the new year which will bring a new and fresh face to the allotments. Watch this space!

If you would like to have an allotment please contact us on [moelyciallotments@gmail.com](mailto:moelyciallotments@gmail.com).

## Newyddion gan y Porwyr

Yr Hydref yw dechrau'r flwyddyn l'r rhai sy'n cadw defaid. Mae fy mamogiaid wedi cael eu symud o fynydd Moelyci i Bentir, mae'r wŷn benyw wedi mynd i borfeydd glasach yn Newark on Trent dros y gaeaf a byddant yn dod yn ôl i Foelyci ym mis Ebrill, gobeithio.

Mae pawb sy'n pori defaid ym Moelyci yn dewis y 'tîm' cryfaf yn ofalus i dreulio'r gaeaf yn yr 'haid fridio'. Rydym yn cadw'r defaid iachaf a chryfaf ac yn drafftio / difa'r gwannaf a'r hynaf. Rydym yn cadw'r wŷn benyw gorau ac yn gwerthu'r wŷn benyw lleiaf a'r holl wŷn gwryw a aned gwanwyn diwethaf. Mae rhai wŷn yn cael eu gwerthu l'w pesgi gan ffermwyr eraill ar dir isel, mae rhai yn cael eu gorffen a'u gwerthu'n uniongyrchol i broseswyr a fydd yn allforio carcasau cyfan l'r Eidal neu Bortiwgal. Fel arfer, mae'r mamogiaid yn cael eu gwerthu yn y farchnad da byw i ffermwyr yr iseldir i fridio am dymor arall ar dir is a llai garw.

Bydd yr hyrddod yn cael eu troi at y mamogiaid rhwng mis Hydref a diwedd Tachwedd ar ffarm fel un ni. Felly, ar ôl cyfnod cyfebru o 5 mis, rydym yn anelu at fod yn wŷna rhwng diwedd mis Mawrth a chanol mis Ebrill fel bod yr wŷn yn cael eu geni mewn da bryd, ond nid yn rhy gynnar, ar gyfer egin cynnar glaswellt y gwanwyn.

Yn ystod y 6 mis nesaf mae'n hanfodol bwysig nad ydi'r defaid yn cael eu cynhyrfu. O'r herwydd, ceisiwch beidio â mynd l'r caeau lle mae'r defaid, yn arbennig os oes gennych gi, gan fod unrhyw gynnwrf yn gallu achosi i ddefaid golli wŷn.

*Glynne Jones, Porwr*

## Y Rhandiroedd

Mae hwn yn gyfnod tawel yn y rhandiroedd, a'r brif dasg yw paratoi'r tir ar gyfer y Gwanwyn a thacluso ychydig ar dyfiant y tymor. Rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn newydd a fydd yn dod â gwedd newydd a bywiog l'r rhandiroedd. Mwy am hyn yn y man!

Os hoffech chi osy rhandir, cysylltwch â ni ar: [moelyciallotments@gmail.com](mailto:moelyciallotments@gmail.com).

## Market Garden

Well the year is coming to an end. The garden is returning to the earth. The summer crops are mainly harvested and plants composted, although the pepper and some extremely hot chillies struggle on in one of the polys. Outside only the hardy winter vegetable remain. It's a time for planning, potting on and preparing herbs and bulbs for Christmas markets.

*Coryn Bye Market garden manager*

## Ffarm Moelyci Evening Talks

Ffarm Moelyci would like to say a big thank you to Hillary Kehoe for presenting her talk on 'Sustainable Grazing' in November.

The evening talks are very month in the Ffarm Moelyci barn. £2 Entry including Panad and a biscuit!

**The evening talks will begin again in January with:**

"Using the natural wealth of 'Biomass' to sustainably support local communities, the environment and the home" by Colin Kehse.

*Maria Jones, Volunteer*



## Panad a Sgwrs

This monthly event continues to grow! A huge THANK YOU to all the enthusiastic Welsh Learners from the local area who came to the café in November for a chat over a delicious coffee and cake.

The Sgwrs a Panad event takes place on the first Saturday of every month between 10am and 11am. Come along to practise your conversational Welsh with other local learners and native speakers in a relaxed and supportive atmosphere.



## Yr Ardd Fasnachol

Wel mae'r flwyddyn yn dod i ben ac mae'r ardd yn dychwelyd l'r pridd. Mae mwyafrif cynydau'r haf wedi cael eu cynhaeafu a'r planhigion wedi'u compostio-er bod rhai pupurau a tsilis arbennig o boeth yn dal i rygnu 'mlaen yn un o'r polidwneli. Tu allan dim ond llysiâu'r gaeaf sydd ar ôl. Mae hi bellach yn amser cynllunio, trawsblannu a pharatoi perlysiâu a bylbiau ar gyfer marchnadoedd Nadolig.

*Coryn Bye, Rheolwr yr Ardd Fasnachol*

## Sgyrsiau Min Nos yn Ffarm Moelyci

Dymuna Ffarm Moelyci ddiolch yn fawr iawn i Hillary Kehoe am ei sgwrs ar 'Pori Cynaliadwy' ym mis Tachwedd.

Mae'r sgyrsiau min nos yn pob mis yn 'sgubor Ffarm Moelyci. Mynediad £2 gan gynnwys panad a bisged!

**Bydd y sgyrsiau min osy n dechrau eto ym mis Ionawr gyda:**

Colin Kehse yn trafod "Defnyddio cyfoeth naturiol biomas i gynnal cymunedau lleol, yr amgylchedd a'r cartref".

*Maria Jones, Gwirfoddolwr*



## Panad a Sgwrs

Mae'r digwyddiad misol hwn yn dal i dyfu! DIOLCH YN FAWR i holl ddysgwyr brwd yr ardal a ddaeth l'r caffi ym mis Tachwedd am sgwrs dros banad a chacen blasus.

Cynhelir y digwyddiadau Panad a Sgwrs rhwng 10am ac 11am ar fore Sadwrn cyntaf y mis. Dewch draw i ymarfer eich Cymraeg gyda dysgwyr lleol eraill a siaradwyr mamiaith mewn awyrgylch hamddenol a chefnogol.





## Dates for your Diary

- ✓ **Noson Cwis Moelyci Quiz Night** 8<sup>th</sup> December, 7.30pm  
Douglas Arms, Bethesda
- ✓ **Sgwrs a Panad for Welsh Learners:** 5<sup>th</sup> December 10:00 – 11:00am in the cafe

Interested in any of these developments or in what Ffarm Moelyci can offer your business?  
Contact Adam on 07791122491 or [adam@cwmharry.org.uk](mailto:adam@cwmharry.org.uk)

Thank you very much for your support over the year  
Merry Christmas and a Happy New Year!

[www.moelyci.org](http://www.moelyci.org)



Lon Felin Hen, Tregarth, Gwynedd LL57 4BB

## Nodyn I'r dyddiadur

- ✓ **Noson Cwis Moelyci Quiz Night** 8 Rhagfyr, 19:30  
Douglas Arms, Bethesda
- ✓ Sgwrs a Panad i Dysgwir Cymraeg: 5 Rhagfyr 10:00 – 11:00 yn y caffi

Oes gennych chi ddi-ddordeb yn rhai o'r datblygiadau hyn, neu yn sut y gallai Ffarm Moelyci helpu eich busnes?  
Cysylltwch ag Adam ar 07791122491 neu [adam@cwmharry.org.uk](mailto:adam@cwmharry.org.uk)

Diolch yn fawr am eich cefynogaeth dros y flwyddyn  
Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda!

[www.moelyci.org](http://www.moelyci.org)



Lon Felin Hen, Tregarth, Gwynedd LL57 4BB